

Diwedd Blwyddyn

Darlleniad: Eseia 63: 7-16

O! Dduw ein Tad, mae'n ddiwedd blwyddyn arall a ninnau yn ôl ein harfer yn edrych yn ôl dros flwyddyn sydd wedi mynd heibio ac yn edrych ymlaen at ddirgelwch y flwyddyn sydd ar ddod.

Edrychwn yn ôl â theimladau ac emosiynau amrywiol iawn gan fod y flwyddyn hon eto wedi bod yn llawn o brofiadau gwahanol, rhai melys a rhai chwerw, rhai cofiadwy a rhai i'w hanghofio. Ond beth bynnag fo'n hamgylchiadau, diolchwn i ti dy fod wedi bod gyda ni trwy gydol y flwyddyn, yn gydymaith i ni ar ein taith, yn arwain ac yn amddiffyn. O gofio hynny, edrychwn ymlaen yn hyderus, heb wybod beth sydd o'n blaenau, ond yn gwybod ein bod yn gwbl ddiogel yn dy ddwylo di.

Ac wrth blygu ger dy fron fel hyn, cyflwynwn ein hunain i ti fel pobl wahanol i'r hyn oeddem flwyddyn yn ôl. Mae amser wedi'n newid ni, wedi dwyn profiadau newydd i'n rhan sydd yn gwneud i ni heddiw fod yn wahanol i ni ddoe, ac yn y newid mae amser yn mynegi'n meidroldeb. Blwyddyn arall yn mynd heibio, carreg filltir arall wedi'i phasio, amser yn symud yn ei flaen a ninnau'n symud gydag ef, yn heneiddio gyda'i rediad wedi'n geni, yn mynd yn hŷn ac yn dod i derfyn ein taith.

Ond yr wyt ti, O! Dduw, yn sefyll y tu allan i ormes amser, yn anfeidrol a thragwyddol, ddoe, heddiw ac yfory yr un. Does dim heneiddio yn perthyn i ti; dim newid, dim gwendid. Yr wyt ti yn sefyll yn oes oesoedd mewn nerth ac awdurdod, does dim terfyn arnat. A ti, O! Dduw, ddaeth trwy dy Fab i fyd amser i gynnig maddeuant a lle i ni yn dy dragwyddoldeb. Plygwn mewn ofn a dychryn wrth feddwl am dy fawredd, ond hefyd mewn hyder a llawenydd wrth feddwl am dy gariad, y cariad sydd, yn ei amser, wedi gweithredu er ein mwyn.

Cyflwynwn ein hunain i ti, a gwnawn hynny yn gwbl hyderus gan

wybod dy fod ti yn graig nad oes symud arni, yn graig sydd ‘yn noddfa a nerth i ni’. Maddau’n hofnau a’n hamheuon, a rho inni’r gallu i bwysu arnat ac ymddiried ynot a hynny yn wyneb yr holl anawsterau all ddod i’n rhan naill ai fel unigolion neu fel eglwysi. Mae yna bethau’n medru digwydd sydd yn siglo rhywun i’w seiliau, ac ar adegau felly ein tueddiad yw cwestiynu pam neu sut, ac fe’i cawn hi’n anodd iawn ateb. Fel eglwysi mae’n ffydd yn medru bod yn wan iawn ac mae hynny i’w weld yn ein hanobaith a’n hamharodrwydd i fentro. Bydd gyda ni, rho dy Ysbryd i ni, cryfha’n ffydd fel ein bod yn medru llawenhau, gobeithio a mentro, a hynny pa mor anodd bynnag y bo’n hamgylchiadau.

Maddau’n beiau i gyd, yn enw ac yn haeddiant dy Fab, Iesu Grist.
Amen.

Trefor Jones Morris